Prif noddwr:



# Mapio llwybr aer glân

**Newid dy siwrne, newid y byd**

## Amcanion

Deall beth sy’n effeithio ar ansawdd yr aer.

I ddysgu sut gall disgyblion gynllunio eu siwrneiau i’r ysgol fel eu bod yn teithio drwy ardaloedd sydd ag aer o ansawdd dda a’r buddion a ddaw iddynt o wneud hynny.

## Amser

30–45 munud

## Adnoddau angenrheidiol

Map o ardal yr ysgol

Pinnau/pensiliau lliw

## Gweithgaredd unigol/grŵp

Y ddau

## Meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru

Dyniaethau

## Cynllun sesiwn

Cyflwyno disgyblion i’r cysyniad o ansawdd aer. Gofynnwch i’r disgyblion sefyll ac yna i 9/10 ohonynt aros ar eu traed. Dyma’r nifer o bobl ledled y byd sy’n anadlu aer llygredig.

Anogwch y disgyblion i ddefnyddio’r map yn y daflen waith i ddisgyblion i ganfod beth sy’n effeithio ar ansawdd aer. Dylent allu dod o hyd i fwy na 10 o bethau. Caniatewch amser ychwanegol i ddisgyblion ar y gweithgaredd os bydd angen.

Anogwch y disgyblion i feddwl am beth allai helpu i wella ansawdd aer, e.e., coed a pharciau.

Argraffwch fap o ardal yr ysgol, argymhellwn ddefnyddio map lloeren Google. Rhannwch fap o’r ardal leol i bob disgybl neu rhowch ef i fyny ar y bwrdd gwyn.

Gofynnwch i’r disgyblion fynd drwy eu taflenni gwaith i ddod o hyd i ardaloedd o ansawdd aer dda a llwybrau newydd posibl i’r ysgol.

**Cyngor:** os yw rhai disgyblion yn byw yn rhy bell i ffwrdd, gofynnwch iddyn nhw lunio llwybrau newydd o’r orsaf drên agosaf, neu weithio gyda disgybl arall sy’n byw’n agosach at yr ysgol.

## Estyniad

Anogwch ddisgyblion i dynnu llun o sut gellid gwneud eu llwybr i’r ysgol yn well fyth. Efallai yr hoffent ychwanegu mwy o barciau, gwarchodfeydd natur, pyllau dŵr a mwy.

Anogwch ddisgyblion i greu map meddwl o’r holl fuddion y gallai pobl eu teimlo pe byddent yn dilyn llwybr i’r ysgol sy’n mynd heibio mwy o ardaloedd o ansawdd aer da.

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban). © Sustrans 2024

YMUNWCH Â’R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT

Taflen waith disgyblion:

# Mapio llwybr aer glân

## Newid dy siwrne, newid y byd

Prif noddwr:

## Cyfarwyddiadau

### Tasg 1

Edrychwch ar y llun hwn. Amserwch eich hun am 5 munud a gweld faint o bethau y gallwch eu gweld a fyddai'n achosi llygredd aer.

**Dewisol –** gallwch ddefnyddio toes chwarae neu Lego i wneud i'r llygryddion sefyll allan.



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Taflen waith disgyblion:

# Mapio llwybr aer glân

**Newid dy siwrne, newid y byd**

Prif noddwr:

SCHWALBE

## Tasg 2

Defnyddiwch y map a roddwyd i chi gan yr athro i ddod o hyd i ardaloedd o ansawdd aer da neu ddrwg yn eich cymdogaeth a sut gallwch ddewis y llwybr gorau bosibl i'r ysgol. Gellir gwneud hyn yn unigol neu mewn parau.

- Allwch chi ddod o hyd i'ch ysgol ar y map? Wedi ichi ddod o hyd iddi, rhowch gylch o'i hamgylch. Beth am eich stryd? Rhowch gylch o amgylch honno hefyd.
- Meddyliwch am y gwahanol ffynonellau llygredd yn ardal yn ardal eich ysgol, e.e., ffyrdd prysur, meysydd parcio, ffatrïoedd.
- Rhowch linell goch ar eich mapiau ble mae'r ffyrdd prysur.
- Nawr meddyliwch am yr ardaloedd ar eich map lle bydd ansawdd yr aer yn dda neu'n well, e.e., mannau gwyrdd, ffyrdd distaw, llwybrau camlesi. Defnyddiwch bin gwyrdd i ddangos yr ardaloedd hyn.
- Lluniwch eich llwybr arferol i'r ysgol mewn lliw gwahanol. A yw'n pasio drwy ardaloedd o ansawdd aer drwg neu dda?
- Ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall y gallech ei ddilyn i'r ysgol, er efallai y byddai'n cymryd ychydig hirach, ond sy'n pasio drwy fwy o'r ardaloedd rydych wedi'u lliwio'n wyrdd ar eich map.




Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban). © Sustrans 2024

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT